

## Sul Heddwch

### Darlleniad: Effesiaid 2: 8-22

---

---

Hollalluog Dduw, a Thad holl genhedloedd byd, wele ni'n nesáu atat yn awr gan ddiolch i ti am dy ddatguddio dy hun yn Dduw ac yn Dad i ni. Gan dy fod yn Dad i ni, yr ydym ninnau'n frodyr i'n gilydd. Maddau inni cyn lleied o ysbryd brawdgarwch a welir yn ein byd heddiw. Maddau inni am beidio â byw fel plant i ti, ac fel brodyr i'n gilydd. Deuwn atat gan weddio dros y byd yr ydym yn byw ynddo.

‘Deisyf wnawn i'r holl genhedloedd  
Fyw fel brodyr yn gytûn.  
Dyro ddiwedd ar ryfeloedd,  
Rho dy ysbryd ym mhob dyn.’

Sylweddolwn, O! Dduw ein Tad, bod casineb, cenfigen, rhyfela ac anghyfiawnder yn hollol groes i'th ysbryd di. Ni allwn ond cydnabod ger dy fron fod y byd a'r hyn sy'n digwydd heddiw yn pwyso'n drwm ar ein meddyliau a'n calonnau. Mae'r byd yr ydym yn byw ynddo'n ymffrostio cymaint mewn nerth, gallu a grym.

Gwyddom hefyd mai ti yw ffynhonnell a sylfaen pob gwir heddwch a thangnefedd. Dangos inni nad oes diben o gwbl inni sôn am ffordd heddwch a thangnefedd os nad ydym yn byw mewn cymod a heddwch â'n cymydog. Cofiwn mai dy ewyllys di yw ar inni fyw mewn heddwch â'n gilydd. Erfyniwn arnat yn awr:

‘Bwrw ymaith bob gelyniaeth  
Welir yn ein dyddiau ni.  
Argyhoedda ein cenhedlaeth  
Mai Duw cariad ydwyt ti.’

Diolchwn i ti am ddangos i ddynion ffordd dra rhagorol yn dy Fab, ein Harglwydd Iesu Grist. Gorchmynnodd Iesu ni i garu ein

gilydd. Erfyniwn yn daer ar i ddynion, drwy gymorth dy Ysbryd di, fedru ymateb i'w eiriau ef. Dangos inni eto mai 'nid trwy lu, ac nid trwy nerth', ond trwy dy Ysbryd di yng nghalonau dynion y gallwn ni gyd-fyw'n hapus â'n gilydd.

Arwain ddynion, O! Dduw, i anghofio amdanynt eu hunain, ac i feddwl yn gyntaf amdanat ti, ac am eu cyd-ddynion. Arwain hwy i geisio dy arweiniad di ac i fyw fel plant i ti.

Bendithia bawb sy'n gweithio dros heddwch byd, ac sy'n gwneud popeth i gael pobl i barchu dy enw ac i ufuddhau i'th orchmynion. Cydnabyddwn nad yw ein ffordd o fyw fel cenhedloedd byd yn deilwng ohonot ti.

'Cofiwn am y rhai sy'n tystio  
Heddiw'n eofn yn ein tir  
Am efengyl sydd yn uno  
Ac yn rhoi tangnefedd gwir.'

Ein gweddi yma'n awr yw, 'O! cymoder pawb â'i gilydd wrth dy groes'. Bydded i dangnefedd y Gwardwr ei hun drigo yng nghalonau dynion.

'Efengyl tangnefedd, O! rhed dros y byd  
A deled y bobloedd i'th lewyrch i gyd.  
Na foed neb heb wybod am gariad y Groes,  
A brodyr i'w gilydd fo dynion pob oes.'

Gwrando arnom yn ein gweddi daer yn enw Iesu Grist sy'n cymodi dynion â'i gilydd. Amen.

*Eifion Jones*